


Arweiniad i Ymgeiswyr



Llety Twristiaeth ac Atyniadau Ymwelwyr

Llety

Os ydych yn ymgeisio am grant i sefydlu neu uwchraddio llety ar gyfer twristiaid, mae'r Nodyn Arweiniad hwn yn disgrifio'r pwyntiau *hanfodol* y mae'n *rhaid* eich bod wedi'u hystyried ac ymdrin â nhw yn eich cais, a'r materion *dymunol* a fydd yn helpu gwneud eich cais yn gryfach:

Hanfodol	Dymunol
Sut fydd y llety arfaethedig yn cysylltu ac yn cydweddu â llety a chyfleusterau twristiaeth eraill yn yr ardal?	Oes gennych ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n bodoli eisoes?
A fydd angen caniatâd cynllunio? Ydych chi wedi trafod eich cais gyda'ch Cynllunwyr Awdurdod Lleol neu geisio cyngor ganddynt? <i>Byddai unrhyw ddyfarniad grant yn amodol ar sicrhau caniatâd cynllunio ac unrhyw ganiatâd arall.</i>	Os ydych wedi siarad â Swyddog Twristiaeth eich Awdurdod Lleol a Chroeso Cymru am eich cynlluniau, dywedwch wrthym sut mae eu cyngor wedi dylanwadu ar eich cais. <ul style="list-style-type: none">- Swyddogion Twristiaeth: RhCT - tourismbusiness@rctcbc.gov.uk CNPT - tourism@npt.gov.uk- Timau Rhanbarthol Croeso Cymru - regionaltourism@gov.uk- Busnes Twristiaeth Cymru
Sut fyddwch chi'n marchnata'r llety ac yn rheoli archebion?	A allwch chi ddangos sut fydd y llety yn cysylltu ag ymdeimlad o le - gan ddathlu a chanolbwyntio ar eich ardal leol, diwylliant lleol, hanes etc.?
Ydy eich cynllun yn helpu cyflwyno Cynllun Rheoli Cyrchfannau eich Awdurdod Lleol? Pa agweddau fydd yn helpu i'w cyflwyno? Mae Cynllun Rheoli Cyrchfannau CBS CNPT yma Mae Cynllun Rheoli Cyrchfannau CBS RhCT yma	A fyddwch yn cydweithio â, ac yn defnyddio, cyflenwyr lleol - bwyd, rhoddion / pethau ymolchi etc.?
<i>Fel arfer</i> bydd angen bod pob darparwr llety eisoes wedi ymgeisio am / ymrwymo i ymgeisio am <u>gradd sêr ansawdd Croeso Cymru</u> , gan anelu at 3 Sêr o leiaf. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i ni ac i westeion bod / y bydd eich busnes wedi'i asesu'n llawn ac at safon benodol. Mae manteision ynghlwm wrth gymryd rhan yn y cynllun - byddwch yn derbyn:	

- asesiad annibynnol o'r hyn y gall gwesteion ddisgwyl dod o hyd iddo yn eich llety
- Adroddiad sy'n dangos eich cryfderau ac yn amlinellu meysydd i'w gwella
- Mynediad i gefnogaeth a chynghor parhaus gan y tîm graddio.
- Tystysgrif ac arwydd am ddim i'w harddangos.
- Defnydd o logo gradd sêr Croeso Cymru
- Mynediad i gyfleoedd marchnata Croeso Cymru gan gynnwys cofnod ar [wefan Croeso Cymru](#)

Atyniadau Ymwelwyr

Fel rhan o'n proses asesu, byddwn yn chwilio am dystiolaeth o arfer gorau mewn perthynas ag ansawdd diogelwch a gwasanaeth a diogelwch. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:

- Achrediad [Cynllun Ansawdd Atyniad Ymwelwyr \(VAQUAS\)](#)
- trwydded gan gorff priodol, fel [Gwasanaeth Trwyddedu Gweithgareddau Antur \(AALS\)](#) y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, [Adventuremark](#), [Cyrrff Llywodraethu Cenedlaethol gweithgareddau penodol](#)
- Archwiliadau Ymgynghorwyr Technegol Croeso Cymru mewn perthynas â Safonau Rhestru Gwefan Croeso Cymru.

DS: nid yw cydymffurfio â'r nodyn arweiniad hwn yn gwarantu y bydd cais yn llwyddiannus - dim ond arwydd o'r meini prawf asesu y byddwn yn eu cymhwyso wrth edrych ar eich cais ydyw.